

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Canolfan Ddeintyddol Gymunedol
Cas-gwent (Bupa)/Bwrdd Iechyd
Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 10 Ebrill
2018

Dyddiad cyhoeddi: 11 Gorffennaf
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

| | | |
|----|--|----|
| 1. | Yr hyn a wnaethom | 5 |
| 2. | Crynodeb o'n harolygiad | 6 |
| 3. | Yr hyn a ganfuom..... | 9 |
| | Ansawdd profiad y claf | 10 |
| | Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol | 15 |
| | Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth..... | 21 |
| 4. | Beth nesaf? | 24 |
| 5. | Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol..... | 25 |
| | Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad | 26 |
| | Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith | 27 |
| | Atodiad C – Cynllun gwella..... | 28 |

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chymesur

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Ddeintyddol Gymunedol Cas-gwent (Bupa) yn Tempest Way, Cas-gwent, NP16 5YX, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 10 Ebrill 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Archwiliodd AGIC i'r ffordd roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a deddfwriaethau a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod y practis yn gweithio'n galed i ddarparu profiad o ansawdd uchel i'w gleifion. Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn daclus ac roedd yr ystafelloedd triniaeth ddeintyddol wedi'u lleoli ar un lefel, a oedd yn darparu mynediad hawdd i unrhyw un a chanddynt broblemau symudedd.

Roedd adborth a dderbyniwyd o holiaduron AGIC yn cadarnhau bod cleifion yn fodlon gyda'r gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn.

Cefnogid y practis gan systemau a oedd yn sicrhau y câi unrhyw gwynion a sylwadau eu casglu yn gyson. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid diweddarau'r wybodaeth am gwynion er mwyn adlewyrchu'r darparwr cyfredol yn glir a sicrhau bod y cynnwys yn gyfredol ac yn gywir.

Roedd yr holl offer radiograffig (pelydr-X) yn cael eu cynnal a'u cadw ac yn gweithio'n dda, ac roedd trefniadau addas ar waith i ddefnyddio'r offer radiograffig yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio¹ ar gyfer yr holl staff clinigol.

Gwnaethom argymhell cofnodi hanesion meddygol yn nodiadau electronig y cleifion. Mae angen gwneud gwelliannau i'r broses

¹Mae radiograffeg ddeintyddol ac amddiffyn rhag ymbelydredd yn un o bynciau craidd datblygiad proffesiynol parhaus ac, felly, dylai fod yn rhan o'r cylch datblygiad proffesiynol parhaus gwell ar gyfer deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol p'un a ydynt yn gymwysedig mewn radiograffeg ai peidio.

ddadheintio ac, yn benodol, y gwaith o gofnodi gwiriadau dechrau a diwedd y dydd a lawrlwytho a gwirio darlleniadau data'r awtoclaf².

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Yn ôl pob golwg, roedd y tîm staff yn hapus yn eu rolau ac roeddent yn ymroddedig iawn i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel
- Roedd digon o gyfleusterau clinigol ar gael, ac roeddent i'w gweld yn lân
- Roedd adborth gan gleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC yn gadarnhaol iawn Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid gwneud gwelliannau i'r cofnodion cleifion i sicrhau y caiff hanesion meddygol eu llofnodi gan y deintydd a'r claf; fe'i dogfennir pan fydd unigolyn yn rhoi'r gorau i ysmegu a phan fydd cydsyniad gwybodus yn cael ei roi
- Adolygu ansawdd y pelydrau-X i sicrhau bod ganddynt ddefnydd clinigol heb i'r lluniau fod yn dreuliedig, yn aneglur neu'n ysgriflyd
- Adolygu'r trefniadau glanhau â llaw yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05³ i sicrhau y

²Defnyddir awtoclaf i sterileiddio offerynnau deintyddol o siapau a maint gwahanol. Mae awtoclaf sylfaenol iawn yn debyg i sosban bwysedd; mae'r ddau yn defnyddio stêm i ladd bacteria, sborau a germau sy'n gallu gwrthsefyll dŵr berw a glanedyddion pwerus.

³ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn cynnig canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

gellir dilysu'r broses hon ar gyfer glanhau offerynnau deintyddol yn effeithiol

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Canolfan Ddeintyddol Gymunedol Cas-gwent (Bupa) yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Cas-gwent a'r cymunedau cyffiniol.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys pedwar deintydd (roedd un ohonynt yn locwm), un hylenydd, saith nyrs ddeintyddol, dau dderbynydd ac un rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, canfuom fod y practis yn gweithio'n galed i ddarparu profiad o ansawdd uchel i'w gleifion. Canfuom wybodaeth berthnasol wedi'i harddangos yn yr ardal aros ac roedd yr adborth y gwnaethom ei dderbyn trwy holiaduron AGIC yn cadarnhau bod y cleifion yn hapus gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn.

Cefnogwyd y practis gan systemau a oedd yn sicrhau y caiff unrhyw gwynion a sylwadau eu casglu'n gyson. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid diweddarau'r wybodaeth am gwynion i adlewyrchu'r darparwr cyfredol yn glir ac i sicrhau bod y cynnwys yn gyfredol ac yn gywir.

Cyn yr arolygiad, estynnwyd gwahoddiad i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cwblhawyd cyfanswm o 19 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Staff hyfryd ac mae fy neintydd yn ofalgar ac yn garedig iawn. Practis gwych"

"Mae'r holl staff yn ofalgar iawn. Practis hyfryd"

"Mae fy neintydd yn wybodus ac yn llawn parch"

"Mae ffobia wastad wedi bod gen i o'r deintydd, ond ers dod i weld [enw'r deintydd]. Mae wedi bod yn llawer haws imi a dw i'n cael mwy o sicrwydd nag erioed"

Cadw'n iach

Roedd gwybodaeth hybu iechyd ar gael yn yr ardal aros, gan gynnwys taflenni gwybodaeth a phosteri yn ymwneud â mathau gwahanol o driniaethau a gwybodaeth ataliol. Gwnaethom nodi bod rhai posterï a oedd yn cynnwys gwybodaeth yn Saesneg ac yn Gymraeg.

Roedd arwydd 'dim ysmegu' yn cael ei arddangos ar fynedfa'r practis deintyddol, a oedd yn cadarnhau bod pwyslais ar gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth safleoedd di-fwg.

Gofal ag urddas

Gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn derbyn gofal gydag urddas a pharch. Roedd staff yn defnyddio'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol i gael sgysiau â chleifion yn gyfrinachol ac i ffwrdd o gleifion eraill pe bai angen. Clywsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol. Roedd yr adborth gan y cleifion a gwblhaodd ein holiaduron yn gadarnhaol iawn. Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd bron pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym ei fod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch ei driniaeth i'r graddau yr oedd yn dymuno. Yn ogystal, dywedodd yr holl ymatebwyr eu bod wedi derbyn gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur fod cost unrhyw driniaeth bob amser yn cael ei hesbonio'n glir iddynt cyn derbyn unrhyw driniaeth. Gwnaethom nodi bod yr wybodaeth am gostau'n cael ei harddangos yn yr ardal aros ac yn y ffolder gwybodaeth i gleifion, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth ei gostio.

Canfuom hefyd dystiolaeth o gynllunio triniaethau ac opsiynau'n cael eu nodi o fewn sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth.

Roedd gan y practis ei ffolder gwybodaeth i gleifion ei hun i gleifion edrych arno, a oedd yn cynnwys costau'r GIG, gwybodaeth am gwynion, manylion cyswllt a gwasanaethau deintyddol brys.

Cyfathrebu'n effeithiol

Nid oedd yr un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn ystyried ei hun yn siaradwr Cymraeg, ond dywedodd yr holl ymatebwyr wrthym eu bod bob amser yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu'n brydlon bob amser a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Roedd rhif ffôn brys ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael pe byddai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau ar gleifion. Roedd y rhif ffôn yn cael ei arddangos ym mynedfa'r ganolfan ddeintyddol ac roedd hefyd ar gael ar y peiriant ateb ac ar wefan y practis.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd adborth gan y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd ein holiadur yn cadarnhau bod y tîm deintyddol wedi trafod â nhw sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach, a'u bod yn rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch eu triniaeth i'r graddau roeddent yn dymuno.

Hawliau pobl

Gwnaethom nodi bod polisi cydraddoldeb penodol ar waith yn y practis. Golygai hyn fod y practis wedi ymrwmo i sicrhau bod pawb yn cael mynediad at yr un cyfleoedd ac i'r un driniaeth deg.

Roedd y ganolfan ddeintyddol wedi'i lleoli yn Ysbyty Cymunedol Cas-gwent ar yr ail lawr. Gwnaethom arsylwi ar arwyddion yn yr ysbyty a oedd yn arwain cleifion i'r ganolfan ddeintyddol. Gellid cael mynediad at y ganolfan ddeintyddol trwy ddefnyddio'r lifft neu'r grisiau.

Roedd gan y gwasanaeth doiledau dynodedig ar gyfer cleifion gwrywaidd a benywaidd, at ddefnydd y staff a'r cleifion. Roedd y cyfleusterau'n lân ac yn darparu adnoddau golchi a sychu dwylo. Roedd toiled a oedd yn addas i gleifion a chanddynt broblemau symudedd wedi'i lleoli ar y llawr daear.

Gwranddo a dysgu o adborth

Roedd polisi a gweithdrefn gwyno ar waith yn y practis. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y polisi yn perthyn i'r darparwr gwasanaethau deintyddol blaenorol dyddiedig 2013. Yn ogystal, roedd y polisi yn cyfeirio at gorff rheoleiddiol yn Lloegr na fyddai'n gallu cynorthwyo cleifion a darparwyr yng Nghymru. O ganlyniad, gwnaethom argymhell y dylid diweddarau'r polisi cwyno i

adlewyrchu'r systemau a'r prosesau sydd ar waith gan y darparwr cyfredol. Yn ogystal, rhaid adolygu'r polisi i sicrhau bod y cynnwys yn gyfredol ac yn adlewyrchu rheoliadau a sefydliadau Cymru sy'n berthnasol i wasanaethau deintyddol yng Nghymru.

Dywedodd 13 o 19 claf a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn gwybod sut i fynegi pryder neu gwyno am y gwasanaethau roeddent yn eu derbyn yn y practis deintyddol. Roedd gweithdrefn gwyno yn cael ei harddangos ar hysbysfwrdd yn yr ardal aros ac yn y ffolder gwybodaeth i gleifion, yn ogystal â phroses Gweithio i Wella⁴ y GIG. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod yr wybodaeth Gweithio i Wella yn wahanol ar yr hysbysfwrdd o'i chymharu â'r wybodaeth yn y ffolder gwybodaeth i gleifion. O ganlyniad, gwnaethom argymhell y dylid adolygu hyn i sicrhau bod yr wybodaeth Gweithio i Wella gyfredol ar gael ac yn cael ei harddangos er budd y cleifion.

Roedd dogfen Cod Ymarfer yn cael ei harddangos a oedd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am bryderon. Roedd y ddogfen hon yn cynnwys manylion y darparwr blaenorol. Roedd arddangos dwy ddogfen yn ddrylyd ac mae angen adolygu hyn. Mae hyn er mwyn sicrhau y darperir yr wybodaeth gywir i gleifion.

Roedd systemau wedi eu sefydlu i gofnodi, monitro ac ymateb i unrhyw gwynion a geid yn y practis. Roedd yr holl gwynion a gofnodwyd ar y system yn cael eu monitro'n rheolaidd gan y brif swyddfa er mwyn sicrhau bod y canlyniadau yn unol â gweithdrefn y cwmni. Dywedodd staff wrthym nad oeddent wedi derbyn unrhyw gwynion ers i Bupa brynu'r practis yn 2017.

Roedd gan y practis system ar waith i geisio adborth/safbwyntiau'r cleifion ynghylch y gwasanaethau a dderbyniwyd. Roedd llyfr sylwadau gan ymwelwyr yn yr ardal aros. Roedd holiaduron y practis deintyddol wedi'u lleoli yn yr ardal aros, ond ar adeg ein hymweliad nid oedd arwyddion clir yn dangos hyn ac roeddent yn cuddio ymysg taflenni gwybodaeth cleifion eraill. Yn ychwanegol at hyn, dywedodd staff wrthym y gallai cleifion gyflwyno adborth ar wefan y practis.

⁴Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon yn GIG Cymru.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid adolygu'r wybodaeth am gwynion i sicrhau'r canlynol:

- bod manylion cyswllt a manylion y darparwr cyfredol ar gyfer y sefydliad yn gywir ac yn amlwg o fewn y dogfennau ar gyfer staff a chleifion
- bod yr wybodaeth am gwynion yn gyfredol ac yn adlewyrchu safonau a rheoliadau Cymru sy'n berthnasol i wasanaethau deintyddol yng Nghymru
- mai gweithdrefn gwyno Gweithio i Wella'r GIG yw'r fersiwn ddiweddaraf
- y caiff cyfeiriad e-bost AGIC ei ddiweddarau i adlewyrchu'r cyfeiriad newydd (ar gyfer cwynion triniaethau preifat)
- y caiff y gwahaniaeth rhwng Cod Ymarfer y practis a'r dogfennau cwynion ei egluro i sicrhau bod gwybodaeth gywir a manwl ar gael i gleifion

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Canfuom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol a'r ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Gwelsom ystafelloedd triniaeth ddeintyddol wedi'u cyfarparu'n dda a oedd yn lân ac yn daclus.

Roedd yr holl gyfarpar radiograffig yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn gweithio'n dda, ac roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer yr holl staff clinigol.

Gwnaethom argymhell y dylid gwella nodiadau'r cleifion i sicrhau y caiff hanesion meddygol eu llofnodi gan y claf a'r deintydd; fe'i dogfennir, lle y bo'n berthnasol, pan fydd unigolyn yn rhoi'r gorau i ysmegu a chaiff cydsyniad cleifion ei gofnodi ar gofnodion cyfrifiadurol.

Gofal diogel

Ni nodwyd unrhyw faterion sicrwydd ar unwaith yn ystod yr ymweliad arolygu hwn.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd y practis yn rhentu ardal yn Ysbyty Cymunedol Cas-gwent. Mae'r practis deintyddol wedi'i leoli ar yr ail lawr ac mae'r holl ardaloedd cleifion wedi'u lleoli ar un llawr. Roedd yr adeilad yn amlwg yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan, ac roedd yr holl ardaloedd yn y practis yn lân ac yn daclus.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; a dywedodd bron pob claf a gwblhaodd holiadur fod y practis, yn ei farn ef, yn lân iawn.

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal er mwyn sicrhau bod dyfeisiau trydan bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis.

Roedd yr holl wastraff a gynhyrchir gan y practis yn cael ei waredu yn unol â gweithdrefnau'r ysbyty. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n briodol. Roedd casgliadau gan y cyngor lleol ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff nad yw'n beryglus (cartref).

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o amgylch y practis a gwelsom fod yr offer hyn wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf. Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o amgylch y practis a gwelsom fod yr offer hyn wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf.

Roedd yr allanfeydd brys yn amlwg ac roedd y poster lechyd a Diogelwch wedi'i arddangos yng nghegin y staff.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan dîm rheoli'r ysbyty ac na chafwyd unrhyw broblemau wrth adrodd am broblemau.

Atal a rheoli heintiau

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau (a adwaenir hefyd fel dadheintio). Roedd y broses hon yn ymddangos yn foddhaol ar sail ein harsylwadau. Roedd enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol
- Roedd y cyfarpar a ddefnyddir ar gyfer glanhau offerynnau'n amlwg mewn cyflwr da
- Roedd offerynnau deintyddol yn cael eu storio'n briodol ac roeddent wedi'u dyddio fel bod staff yn llwyr ymwybodol o'u dyddiadau dod i ben
- Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i ddiogelu'r staff rhag anafiadau a/neu heintiau
- Sinc benodedig i olchi dwylo

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau wedi'i gwblhau, nad oedd wedi nodi bod angen gwneud unrhyw welliannau. Mae hyn yn dangos bod y practis yn archwilio ei broses ddadheintio i sicrhau'r arferion gorau yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

Roedd gan y practis lyfrau lòg ar gael ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio bob dydd, ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd.

Ar adeg ein hymweliad, gwnaethom nodi bod y practis yn cwblhau gwaith glanhau â llaw fel eu dull glanhau cyn sterileiddio. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis adolygu'r broses hon yn unol â chanllawiau'r Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 oherwydd yr anhawster roedd y practis yn ei gael wrth ddangos bod y broses gyfredol yn effeithiol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen cwblhau adolygiad o'r dull glanhau â llaw yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Pennod 3) i sicrhau y gall y broses hon gael ei dilysu i sicrhau'r gwaith o lanhau offerynnau deintyddol yn effeithiol.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau (cleifion) ac roedd cyfarpar dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi cael hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd. Roedd siart lif ddadebru yn cael ei harddangos yng nghegin y staff ac roedd polisi argyfyngau meddygol ar waith.

Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf penodedig a enwir i sicrhau bod aelod o staff hyfforddedig bob amser ar gael. Roedd llyfr damweiniau ar waith i gofnodi unrhyw wybodaeth am ddamweiniau fel rhan o'r gwaith o reoli iechyd a diogelwch.

Gwelwyd bod y cyffuriau brys yn cael eu cadw'n briodol er mwyn sicrhau mynediad rhwydd atynt mewn achos brys. Roedd gan y practis system i

ddangos bod gwiriadau'n cael eu cynnal i wirio a newid cyffuriau a chwistrelli yr oedd eu dyddiadau wedi dod i ben, yn unol â'r safonau a amlinellir gan Gyngor Dadebru'r DU.⁵

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn llesiant a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Yn ogystal, roedd polisïau diogelu ar waith ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed, a oedd yn cynnwys manylion ynghylch y tîm diogelu lleol.

Gwnaethom nodi bod yr holl staff wedi diweddarau eu hyfforddiant diogelu.

Dywedodd staff wrthym y byddai gwiriadau cyn-gyflogaeth yn cael eu cwblhau ar gyfer unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd⁶. Dywedodd staff wrthym fod tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd ar gyfer deintyddion a hylenwyr.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn y practis a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer priodol ar gyfer sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Roedd yr ystafelloedd triniaeth ddeintyddol wedi'u trefnu'n dda i helpu'r tîm i weithio'n effeithlon.

Roedd yr ystafelloedd triniaeth ddeintyddol yn amlwg yn lân ac mewn cyflwr da ac roedd yr holl lorïau ac arwynebau gwaith wedi'u selio yn yr ymylon i sicrhau bod y practis yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau rheoli heintiau.

Roedd yr holl gyfarpar radiolegol yn cael ei gynnal a'i gadw ac yn gweithio'n dda. Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio

⁵ Mae Cyngor Dadebru'r DU yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

⁶ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae wedi disodli'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel, a gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer yr holl staff clinigol. Roedd y llythyr hysbysu at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â diogelwch radiolegol yn y ffeil ac yn cadarnhau bod y practis wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, fel sy'n ofynnol.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod rhaglen o archwiliadau wythnosol ar waith ac yn cynnwys cofnodion rheoli heintiau a chofnodion cleifion. Roedd yr holl archwiliadau a gwblhawyd yn cael eu cyflwyno i'r brif swyddfa i'w dadansoddi, ac roedd y practis yn cael ei hysbysu am unrhyw gamau gweithredu.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Trwy gynnal trafodaethau â staff, fe'n hysbyswyd ni bod adolygiadau gan gymheiriaid rhwng staff clinigol yn cael eu cynnal a'u bod yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Er enghraifft, roedd copi wrth gefn o bob ffeil electronig yn cael ei wneud yn rheolaidd ac roedd mynediad at sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn breifat. Roedd polisi diogelu data ar waith.

Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o 20 o gofnodion cleifion yn y practis. Ar y cyfan, canfuom fod y cofnodion yn briodol, a'u bod yn ddigon manwl ac wedi'u personoleiddio â gwybodaeth am driniaeth pob claf. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod rhai problemau a oedd angen sylw, gan gynnwys:

- Ar rai cofnodion, nid oedd unrhyw lofnodion gan y claf na'r deintydd ar y ffurflenni hanesion meddygol papur y gwnaethom eu hadolygu
- Nid oedd yr hanesion meddygol cychwynnol ar rai cofnodion y gwnaethom eu hadolygu wedi'u llofnodi gan y deintydd
- Canfuom ddau gofnod plentyn nad oeddent yn cynnwys asesiad orthodontig

- Ar rai nodiadau cleifion y gwnaethom eu hadolygu, nid oedd manylion ynghylch rhoi'r gorau i ysmegu wedi'u cofnodi
- Nid oedd unrhyw dystiolaeth o gydsyniad gwybodus wedi'i ddogfennu ar y cyfrifiadur yng nghofnodion dau glaf
- Roedd y radiograffau y gwnaethom arsylwi arnynt o ansawdd gwael nad oeddent yn addas i'w defnyddio'n glinigol, am eu bod yn dreuliedig, yn aneglur ac yn ysgrifflud

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen gwneud gwelliannau i gofnodion cleifion i sicrhau'r canlynol:

- Y caiff llofnodion cleifion a deintyddion eu cofnodi ar ffurflenni hanesion meddygol papur
- Y caiff asesiadau orthodontig eu cofnodi ar gyfer plant
- Y caiff cyngor ar roi'r gorau i ysmegu ei gofnodi ar nodiadau'r cleifion
- Y caiff cydsyniad gwybodus ei gofnodi ar gofnodion cyfrifiadurol

Rhaid cynnal adolygiad o radiograffau i sicrhau ansawdd gwell

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom dystiolaeth bod systemau a phrosesau ar waith a oedd yn sicrhau bod y practis a'r staff yn cael eu cefnogi a'u bod yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Roedd amrediad o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith yn oystal â systemau i sefydlu, hyfforddi a chefnogi staff.

Gwnaethom argymhell y dylid adolygu holl bolisiâu a gweithdrefnau'r practis i sicrhau y caiff yr holl frandio a gwybodaeth gyswllt gywir eu cynnwys ac i sicrhau eu bod wedi'u halinio â'r rheoliadau/canllawiau sy'n briodol i Gymru.

Roedd gan y staff gofnodion hyfforddiant cyfredol ar waith. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid disodli'r cofnod imiwneiddio staff annarllenadwy cyn gynted â phosibl.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Bupa wedi bod yn darparu gwasanaethau yn yr adeilad cyfredol ers mis Ebrill 2017 a rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd.

Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Gwnaethom arsylwi ar grŵp staff a oedd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, a dangoswyd hyn gan eu perthynas â'i gilydd a'u rhyngweithio gyda'r cleifion. Roedd y staff yn ymwybodol o bolisi chwythu chwiban y practis a dywedodd staff wrthym eu bod yn hyderus wrth godi unrhyw faterion neu bryderon ynghylch darparu gofal i gleifion yn uniongyrchol â rheolwr y practis neu gorff priodol pe bai angen.

Roedd y staff i gyd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel ar gyfer eu cleifion a chefnogid hyn gan amrediad o bolisiau a gweithdrefnau. Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod staff wedi llofnodi'r polisiau a'r gweithdrefnau i gadarnhau eu bod wedi eu darllen ac yn deall eu cyfrifoldebau. Gwnaethom argymhell sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau ar gael gyda'u brandio cwmni a'u gwybodaeth gyswllt eu hunain. Yn ogystal, roedd rhai polisiau yn cyfeirio at reoliadau/canllawiau Lloegr ac roedd yn rhaid diwygio'r rhain i adlewyrchu rheoliadau Cymru.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid diweddarau'r holl bolisiau a gweithdrefnau i adlewyrchu brandio'r cwmni a'r manylion cyswllt.

Mae'n rhaid i'r holl bolisiau a gweithdrefnau fod yn briodol ac yn berthnasol i Gymru, gan gynnwys sicrhau bod rheoliadau sy'n benodol i Gymru, safonau a chanllawiau'n cael eu hadlewyrchu'n ddigonol.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Roedd tystiolaeth o raglen ymsefydlu ar gyfer aelodau newydd o staff. Dywedwyd wrthym fod nyrsys deintyddol asiantaeth wedi gweithio yn y practis a gwnaethom argymhell y dylid cwblhau hyfforddiant sefydlu a'i ddogfennu ar gyfer yr holl staff asiantaeth i sicrhau eu bod yn ymatebol i gyfleusterau'r practis a'u bod yn deall yr hyn a ddisgwylir ohonynt wrth weithio yn y practis.

Gwelsom fod pob aelod o staff wedi cael mynediad at amrywiaeth o hyfforddiant, a chedwid tystysgrifau yn ffeiliau'r staff.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwneidd hepatitis B pob aelod o'r staff clinigol sy'n gweithio yn y practis. Golygai hyn fod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod cleifion a staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws a gludir yn y gwaed hwn. Gwelsom fod un cofnod wedi colli ei liw ac, ar adeg yr ymweliad, gwnaethom ofyn i staff sicrhau y caiff cofnod imiwneiddio newydd ei roi ar waith sy'n dangos y statws imiwneiddio'n glir.

Gwelsom dystiolaeth o arfarniadau staff yn y ffeil ar gyfer pob aelod o staff ar wahân i ddeintyddion. Dywedodd staff wrthym fod deintyddion yn derbyn cyfarfod un i un bob wythnos. Yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat

(Cymru) 2017, rhaid cwblhau arfarniadau ar gyfer pob aelod o staff, gan gynnwys deintyddion.

Roedd tystiolaeth o gyfarfodydd staff ffurfiol bob mis a oedd wedi'u cofnodi. Cyflwynwyd dysgu ar y cyd i'r amserlen yn ddiweddar. Bydd hyn yn sicrhau y caiff unrhyw ddysgu ei rannu ymysg staff fel eu bod yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion pwysig.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl aelodau o staff yn meddu ar wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn eu ffeil. Roedd gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd ar gyfer deintyddion a hylenywyr, ac ystyriwn hyn yn arfer da. Roedd pob aelod o staff, lle roedd hynny'n berthnasol, wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd tystysgrif AGIC y deintydd wedi'i harddangos, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, a gwelsom gadarnhad o yswiriant indemniad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid cadarnhau gydag AGIC y cafwyd gwared ar y cofnod imiwneiddio sydd wedi colli ei liw a bod cofnod newydd wedi'i roi ar waith, sy'n ddarllenadwy ac sy'n dangos y statws imiwneiddio'n glir.

Rhaid cwblhau arfarniadau a'u cofnodi ar gyfer deintyddion.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf 12 wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|--|--|--------------------------------|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Canolfan Ddeintyddol Gymunedol Cas-gwent (Bupa)

Dyddiad yr arolygiad: 10 Ebrill 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|-------|-------------------------------|------------------|----------|
| Ni nodwyd unrhyw faterion sicrwydd ar unwaith. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Ddeintyddol Gymunedol Cas-gwent (Bupa)

Dyddiad yr arolygiad: 10 Ebrill 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|--|---|------------------------|------------------------------|
| Ansawdd profiad y claf | | | | |
| <p>Rhaid adolygu'r wybodaeth am gwynion i sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"><input type="checkbox"/> Bod y darparwr cyfredol a'r manylion cyswllt ar gyfer y sefydliad yn gywir ac yn amlwg yn y ddogfennaeth ar gyfer y staff a'r cleifion<input type="checkbox"/> Bod yr wybodaeth am gwynion yn gyfredol ac yn adlewyrchu safonau a rheoliadau Cymru sy'n berthnasol i wasanaethau deintyddol yng Nghymru<input type="checkbox"/> Mai gweithdrefn gwyno Gweithio i Wella'r | <p>Safonau Iechyd a Gofal 6.3 Gwrando a dysgu o adborth</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2017 Rheoliad 21</p> | <p>Mae'r wybodaeth am gwynion bellach wedi'i brandio fel Bupa ac mae'r holl fanylion cyswllt cywir ar gael i'r staff a'r cleifion.</p> <p>Mae'r wybodaeth am gwynion wedi'i hadolygu ac mae bellach yn gyfredol ac yn adlewyrchu safonau rheoliadau Cymru sy'n berthnasol i wasanaethau deintyddol yng Nghymru, gan ddefnyddio gweithdrefn gwyno Gweithio i Wella'r GIG yn ganllaw.</p> | <p>Rheolwr Practis</p> | <p>Eisoes wedi'i gwblhau</p> |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---------------------|------------------|
| <p>GIG yw'r fersiwn diweddaraf</p> <ul style="list-style-type: none"> □ Y caiff cyfeiriad e-bost AGIC ei ddiweddarau i adlewyrchu'r cyfeiriad newydd (ar gyfer cwynion triniaethau preifat) □ Y caiff y gwahaniaeth rhwng Cod Ymarfer y practis a'r dogfennau cwynion ei egluro i sicrhau bod gwybodaeth gywir a manwl ar gael i gleifion | | <p>Mae cyfeiriad e-bost AGIC wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r cyfeiriad newydd.</p> <p>Mae'r gwahaniaeth bellach wedi'i nodi'n glir yn ein ffolder gwybodaeth y claf rhwng Cod Ymarfer y practis a'r dogfennau cwynion. Gofynnwyd i 30 o gleifion a oeddent wedi deall ac yn gweld y gwahaniaeth yn glir, ac atebodd pawb ag 'Ydw', ac roeddent yn hyderus bod ganddynt yr holl wybodaeth gywir a manwl.</p> | | |
| Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol | | | | |
| <p>Mae angen cwblhau adolygiad o'r dull glanhau â llaw yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Pennod 3) i sicrhau y gall y broses hon gael ei dilysu i sicrhau bod offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau'n effeithiol.</p> | <p>Safonau Iechyd a Gofal 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio</p> | <p>Mae'r cwmni yn bwriadu prynu diheintydd golchi felly byddwn yn gallu darparu profion protein i sicrhau bod offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau'n effeithiol.</p> | <p>Bupa</p> | <p>Tri mis</p> |
| <p>Rhaid gwneud gwelliannau i gofnodion cleifion i</p> | <p>Safonau Iechyd a Gofal</p> | <p>Mae ffurflenni hanesion meddygol newydd yn cael eu rhoi i bob claf. Mae</p> | <p>Pob deintydd</p> | <p>Eisoes ar</p> |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|--|--|--|------------------------------|
| <p>sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> Y caiff llofnodion cleifion a deintyddion eu cofnodi ar y ffurflenni hanesion meddygol papur <input type="checkbox"/> Y caiff asesiadau orthodontig eu cofnodi ar gyfer plant <input type="checkbox"/> Y caiff cyngor ar roi'r gorau i ysmegu ei gofnodi ar nodiadau'r cleifion <input type="checkbox"/> Y caiff cydsyniad gwybodus ei gofnodi ar gofnodion cyfrifiadurol | <p>3.5 Cadw cofnodion</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2017, Rheoliad 20 (1)(a)(i)(ii)</p> | <p>pob deintydd yn llofnodi ar gyfer pob claf a chânt eu sganio ar gofnodion y cleifion hefyd.</p> <p>Mae pob deintydd yn sicrhau eu bod yn cofnodi asesiadau orthodontig ar gyfer pob plentyn, eu bod yn cofnodi cyngor ar roi'r gorau i ysmegu a'u bod yn cofnodi cydsyniad gwybodus ar gofnodion cyfrifiadurol.</p> <p>Mae rheolwr y practis a'r nyrs arwain yn adolygu nodiadau'r cleifion yn rheolaidd i sicrhau bod hyn oll yn cael ei gyflawni.</p> | <p>Rheolwr y practis a'r nyrs arwain</p> | <p>waith</p> |
| <p>Rhaid cynnal adolygiad o radiograffau i sicrhau ansawdd gwell</p> | <p>Safonau Iechyd a Gofal 3.5 Cadw cofnodion</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2017, Rheoliad 20 (1)(a)(i)(ii)</p> | <p>Prynwyd platiau pelydr-X newydd ar gyfer pob ystafell driniaeth ddeintyddol. Mae'r datblygwr pelydr-X wedi'i wasanaethu ac mae wedi'i raddnodi i wella ansawdd y sganiau pelydr-X a gymerir.</p> <p>Bydd aelod o staff yn gyfrifol am adolygu ansawdd y sganiau pelydrau-X a gymerir yn y tri mis nesaf.</p> | <p>Rheolwr y practis a Bupa</p> | <p>Eisoes wedi'i gwblhau</p> |

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|--|-------------------|-----------------------|
| Rhaid diweddarau'r holl bolisiâu a gweithdrefnau i adlewyrchu brandio'r cwmni a'r manylion cyswllt. | Safonau lechyd a Gofal 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol; 4.2 Gwybodaeth i gleifion | Mae'r holl bolisiâu a gweithdrefnau bellach wedi'u diweddarau â brandio Bupa a'r holl fanylion cyswllt cywir. | Rheolwr y practis | Eisoes wedi'i gwblhau |
| Mae'n rhaid i'r holl bolisiâu a gweithdrefnau fod yn briodol ac yn berthnasol i Gymru, gan gynnwys sicrhau bod rheoliadau sy'n benodol i Gymru, safonau a chanllawiau'n cael eu hadlewyrchu'n ddigonol. | Safonau lechyd a Gofal 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol; 4.2 Gwybodaeth i gleifion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2017 Rheoliad 8 | Wedi inni eu hadolygu, mae'r holl bolisiâu a gweithdrefnau wedi'u harchwilio'n drylwyr ac wedi'u diweddarau i sicrhau eu bod yn briodol ac yn berthnasol i Gymru. Rydym wedi sicrhau y caiff holl reoliadau, safonau a chanllawiau Cymru eu hadlewyrchu'n ddigonol yn y polisiâu | Rheolwr y practis | Eisoes wedi'i gwblhau |
| Rhaid cadarnhau gydag AGIC bod y cofnod imiwneiddio a oedd wedi colli ei liw wedi'i ddisodli â chofnod sy'n ddarllenadwy ac sy'n | Safonau lechyd a Gofal 7.1 Gweithlu | Mae'r deintydd wedi trefnu apwyntiad gyda'i feddyg teulu ar gyfer prawf gwaed er mwyn iddo allu darparu statws imiwneiddio newydd, darllenadwy a | Y deintydd | Un mis |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|-------------------|-----------------------|
| dangos y statws imiwneiddio'n glir. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2017 Rheoliad 13 (6)(c) | chlir. | | |
| Rhaid cwblhau arfarniadau a'u cofnodi ar gyfer deintyddion. | Safonau Iechyd a Gofal 7.1 Gweithlu Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2017 Rheoliad 17 (4)(a) a (b) | Wedi inni eu hadolygu, mae rheolwr y practis bellach yn cwblhau ac yn cofnodi'r holl arfarniadau yn rheolaidd ar gyfer y deintyddion. | Rheolwr y practis | Eisoes wedi'i gwblhau |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): JAN MARSHALL

Swydd: RHEOLWR Y PRACTIS

Dyddiad: 6 Mehefin 2018